Association of Independent Museums

The AIM Hallmarks of Prospering Museums

Canllawiau AIM i Fyrddau

Cadw'n ddiweddar – adolygu dogfen lywodraethu a ffurf gyfreithiol eich sefydliad

Awdur: Adrian Babbidge

Cyflwyniad

Bwriad y canllaw hwn yw helpu i ymddiriedolwyr amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth sicrhau bod ffurf gyfreithiol eu sefydliad yn dal i fod yn addas i'r diben. Mae'n sôn am yr angen ar gyfer adolygu rheolaidd o'r ddogfen lywodraethu ac amgylchiadau ble mae ymddiriedolwyr o bosib eisiau newid y ffurf gyfreithiol.

Y Ddogfen Lywodraethu

Mae dogfen lywodraethu yn manylu pwrpasau sefydliad, a sut y caiff ei weinyddu. Mae'r math o ddogfen yn dibynnu ar ei strwythur gyfreithiol. Y rhai a welir amlaf mewn amgueddfeydd annibynnol yw'r Cyfansoddiad, y Weithred Ymddiriedolaeth, y Cynllun Comisiwn Elusen, a'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu. Weithiau gall y ddogfen lywodraethu fod yn gyfres o bapurau ar wahân yn hytrach na thestun sengl. Er enghraifft, gall y Weithred Ymddiriedolaeth gael ei addasu gan Weithredoedd atodol neu Gynlluniau Comisiwn; neu Orchmynion sydd yn awdurdodi gweithredoedd sydd yn syrthio y tu allan i'r rheolau yn y ddogfen lywodraethu. Yn yr Alban, gall fod angen Gorchymyn Llys ar gyfer unrhyw newidiadau sylweddol i ddogfennau llywodraethu.

Mae dogfennau llywodraethu, o unrhyw fath, yn rhwymo mewn cyfraith ar y rhai i gyd sydd yn cael eu cynnwys o fewn eu darpariaethau, felly mae'n bwysig fod gan bob un o'r bobl hyn fynediad rhwydd i gopi diweddar. Dylai'r bobl i gyd sydd yn rhannu cyfrifoldeb terfynol ar gyfer rheoli a chyfeirio'r sefydliad ('ymddiriedolwyr' pan fod yr amgueddfa yn elusen) gael copi personol eu hunain. Dylai fod yn bwynt cyfeirio rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff y rheolau a'r rheoliadau a ragnodir eu dilyn bob amser. Gan fod dogfennau llywodraethu yn amrywio rhwng sefydliadau – hyd yn oed rhwng cyrff o natur debyg – ni ellir cymryd yn ganiatol fod adnabyddiaeth fanwl o ddogfennau llywodraethu un endid yn berthnasol i un arall.

Mae cydymffurfiaeth â dogfennau llywodraethu yn ofyniad statudol ar gyfer ymddiriedolwyr elusen a chyfarwyddwyr cwmni. Gall fethiant i gydymffurfio arwain, ar y gorau, at densiwn rhwng ymddiriedolwyr. Mewn achosion eithafol, drwy beidio â rhoi'r prawf angenrheidiol i ymddiriedolwyr er mwyn gwrthateb heriau, mae'n bosib y gall dilysrwydd penderfyniadau ymddiriedolwyr ei amau. Ar y gwaethaf, gall ymddiriedolwyr fod yn agored i honiadau o ymddwyn yn anonest ac o dor-ymddiriedaeth, a fydd yn golygu perygl o atebolrwydd ariannol.

Newid y Ddogfen Lywodraethu

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, mae'n bosib na fydd y ddogfen lywodraethu a oedd yn creu'r amgueddfa yn briodol rhagor i'w hamgylchiadau presennol. Weithiau, mae'r newidiadau sydd angen eu diweddaru yn fach, ac mae'r mwyafrif o ddogfennau llywodraethu yn disgrifio gweithdrefn sydd yn galluogi adolygiad fel hyn. Rhaid ffeilio copïau o'r cynigion sydd yn gwneud y newidiadau hyn, a chopi o'r ddogfen lywodraethu ddiwygiedig gyda'r rheoleiddwyr perthnasol. Ble nad yw'r ddogfen lywodraethu yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer diwygio, yna bydd angen dilyn gweithdrefnau statudol neu reoliadol er mwyn galluogi newidiadau fel y rhain.

Weithiau, fodd bynnag, gall fod angen diwygio mwy sylweddol. Mae rheolau nodweddiadol ar gyfer newidiadau mawr yn cynnwys:

Tyfiant

Mae llawer o amgueddfeydd yn dechrau gyda nifer fach o bobl yn gweithredu dan Weithred Ymddiriedolaeth neu ddogfen debyg, neu gyda grŵp mwy o unigolion yn gosod rheolau sydd yn diffinio eu nodau a'u gweinyddiaeth, sydd fel arfer yn cynnwys penodi pwyllgor rheoli. Yn y ddwy sefyllfa hon, mae unrhyw eiddo neu gontractau yn cael eu dal gan unigolion ar ran yr amgueddfa. Yr unigolion hyn a fydd yn bartïon i unrhyw weithredu cyfreithiol dan eu henwau eu hunain, ac felly y nhw a fydd yn bersonol atebol. Caiff cyrff fel hyn eu disgrifio fel 'anghorfforedig'.

Os ydy'r amgueddfa yn aros yn fach, yna gall sefyllfa fel hyn fod yn foddhaol. Fodd bynnag, pe bai'n datblygu i'r pwynt lle bo angen cyflogi staff, bod yn berchen ar neu lesio eiddo, neu drefnu contractau gyda chyflenwyr neu gyrff ariannu, yna mae'n ddymunol iddi gael 'personoliaeth gyfreithiol' ei hun. Trwy wneud hyn, gallai fod â rhan mewn prosesau a gweithdrefnau cyfreithiol yn ei henw ei hun, a chyfyngu atebolrwydd ei hymddiriedolwyr a'i haelodau. Mae newid fel hyn yn galw am broses o'r enw 'corffori'.

Newid deddfwriaethol

Gall deddfwriaeth newydd arwain at rai darpariaethau o ddogfennau llywodraethu yn darfod, neu yn creu cyfleoedd i reolau presennol gael eu diweddaru fel eu bod yn adlewyrchu amgylchiadau cyfoes. Ers 2005 mae'r gyfraith cwmni ac elusen wedi newid yn sylweddol trwy gydol y DU, ac mae'n debyg y bydd unrhyw ddogfen lywodraethu elusen neu gwmni a oedd yn bodoli cyn y dyddiad hwnnw yn manteisio o gael ei diweddaru.

Cydgrynhoi Newidiadau Blaenorol

Gall sefydliad sydd wedi gwneud newidiadau rheolaidd i'w ddogfen lywodraethu dros y blynyddoedd sylwi mai un o'r canlyniadau o hyn yw anghysondeb yn y testun neu bod drysu o ran p'un yw'r fersiwn diweddaraf. Mae'r adeg yn dod pan ei fod yn ddymunol i ailymweld ac adolygu er mwyn sicrhau bod y ddogfen lywodraethu yn gyffredinol gyson. Yn debyg, lle bo'r ddogfen lywodraethu yn gyfres o destunau perthynol o ddyddiadau gwahanol, mae eu cydgrynhoi yn un dogfen sengl yn gallu bod yn gymorth mawr.

Newid mewn Pwrpas

Mae sgôp cyfyngedig ar gyfer newid pwrpasau cynradd elusen, a gellir defnyddio ei hasedau yn unig ar gyfer ei phwrpasau sefydlu gwreiddiol. Er bod gweithredu yn gallu cael ei ganolbwyntio o fewn y 'gwrthrychau elusennol' hynny, mae'n anghyfreithlon i fynd y tu hwnt i'w terfynau. Lle bo sefydliad yn dymuno datblygu fel bod ei weithgareddau yn syrthio y tu allan i sgôp ei wrthrychau gwreiddiol byddai'n angenrheidiol i greu endid newydd gyda'r pwrpasau ehangach dymunol. Tra ei fod yn bosib trosglwyddo asedau presennol yr elusen i'r elusen newydd honno, rhaid iddynt gael eu clustnodi fel eu bod yn perthyn yn unig i'r pwrpas elusennol gwreiddiol, ac nid i gylch gwaith ehangach yr endid newydd. Bydd angen i'r cyllid ar gyfer ei gweithgareddau newydd ddod o ffynonellau newydd.

Newidiadau mewn Hawliau Enwebu

Mae llawer o gyrff llywodraethu yn galluogi i bartïon eraill (fel awdurdodau lleol, cymdeithasau dysgedig, prifysgolion, sefydlyddion ayb) enwebu pobl i gorff llywodraethu yr amgueddfa. Weithiau mae hawliau fel y rhain yn methu â chael eu hymarfer am gyfnod estynedig o amser; neu gall corff enwebu ddiflannu o ganlyniad i gyfuniadau neu ddiddymu. I sefydliadau gyda nifer sylweddol o gyrff enwebu, gall newidiadau fel y rhain gael effaith ar y ffordd y mae'r bwrdd yn gweithio. Gall adolygiad mewn ymateb i newid fel hyn gwestiynu pa un a yw hawliau enwebu yn parhau i fod yn briodol, yn enwedig os oes gan yr aelodau enwebedig wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch rhwng y corff a oedd yn eu penodi a'r amgueddfa.

Dylai fod yn glir i bawb fod gan ymddiriedolwyr elusen a chyfarwyddwyr cwmni ddyletswyddau statudol cyfatebol i ymddwyn yn unig yn niddordebau gorau yr elusen / cwmni hwnnw, heb ystyried diddordebau sefydliad a fydd o bosib wedi eu penodi i'r swyddfa honno. Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau, a chynnal cofrestr o ddiddordebau cyfarwyddwyr / ymddiriedolwyr yn helpu i gyflawni hyn.

Mae perthynasau gyda chyrff ariannu yn cael eu cynnal yn well gan gytundebau ysgrifenedig ffurfiol rhwng y partïon na gan yr hawl i fynychu cyfarfodydd, pa un a ydy hyn yn digwydd fel ymddiriedolwr neu sylwedydd.

Gofal a Chynnal

Dyma ffactorau posib sydd yn gallu awgrymu bod adolygiad llawn yn amserol:

- Mae'r ddogfen lywodraethu wedi aros heb ei newid am gyfnod estynedig o amser (er enghraifft yn fwy na phumtheg blynedd);
- Mae pump o ddiwygiadau i'r ddogfen lywodraethu wedi bod yn ystod y deng mlynedd blaenorol; ac
- Mae gwahaniaeth o'r ymarfer a ddisgrifir yn y ddogfen lywodraethu yn barhaus ac yn rheolaidd, hyd yn oed pan fod yr ymddiriedolwyr i gyd yn cytuno i wahaniaethau fel y rhain ac maent wedi dod yn 'arfer'.

Sut i Newid Dogfen Lywodraethu

Cyrff Anghorfforedig

Mae sefydliadau anghorfforedig ac ymddiriedolaethau elusennol yn rhydd i wneud y newidiadau y maent yn eu dymuno i'w cyfansoddiad, ar yr amod eu bod yn cadw at y gweithdrefnau a ddisgfrifir yn eu cyfansoddiad presennol, a bod y mwyafrif o aelodau yn ôl y ddogfen lywodraethu yn cytuno i'r newid hwnnw.

Cyrff Corfforedig

Mae Deddf Cwmnïau 2006 yn golygu bod unrhyw newid, hyd yn oed rhai dibwys, i Femorandwm ac Erthyglau a grewyd dan ddeddfwriaeth gynharach yn arwain at ddiweddaru'r ddogfen lywodraethu gyfan fel ei bod yn ateb gofynion Deddf 2006.

Yn arbennig, mae ffurf y Memorandwm ac Erthyglau wedi cael ei disodli. Yn flaenorol roedd y Memorandwm yn amlinellu pwrpasau'r cwmni ('gwrthrychau') a beth oedd y cwmni yn gallu ei wneud i weithredu yn ôl y pwrpasau hyn (ei 'bŵerau'). Roedd yr Erthyglau yn manylu sut i'w weinyddu. Erbyn hyn mae'r Memorandwm wedi dod yn ddim byd mwy ond datganiad o fwriad i gofrestru cwmni, ac felly nid yw hyn o unrhyw ddefnydd ymarferol arall yn dilyn corffori; yr Erthyglau yn awr sydd yn cynnwys pwrpasau a phŵerau'r cwmni a oedd yn flaenorol yn y Memorandwm, yn ogystal â'r rheoliadau gweinyddol.

Mae graddfa'r newid sydd angen yn awgrymu bod angen mynd i'r afael ag adolygiad trylwyr, i weld pa un a yw aros yn gwmni elusennol yw opsiwn gorau'r amgueddfa, yn hytrach na dod yn sefydliad corfforaethol elusennol (gweler isod). Pe bai yn penderfynu i aros fel cwmni, yna rhaid rhoi ystyriaeth i ddiwygio'r Erthyglau, naill ai drwy fabwysiadu arloesedd Deddf 2006 neu gynnwys y gofynion statudol diwygiedig.

Roedd y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer:

- rheolau ar gyfer cynnal cyfarfodydd cyffredinol:
  a. nid yw cyfarfodydd cyffredinol blynyddol yn ofyn statudol rhagor (er ei fod yn arfer da i'r Erthyglau ddarparu ar gyfer cyfarfodydd fel y rhain), sydd yn gallu bod yn arbennig o ddefnyddiol pan fod yr un bobl yn ymddiriedolwyr ac yn aelodau;
  b. mae'r categori o gyfarfodydd cyffredinol 'eithriadol' wedi cael ei derfynu ac mae cyfarfodydd cwmni erbyn hyn yn 'gyfarfodydd cyffredinol' yn syml;
  c. mae cyfnodau o rybudd ar gyfer cyfarfodydd cyffredinol yn cael eu lleihau i 14 diwrnod a gall 90% o'r aelodau â phleidlais gytuno i gyfarfod â llai o rybudd;
  d. mae hawl gan aelodau i benodi procsis a rhaid i hysbysiadau o gyfarfodydd cyffredinol gyfeirio at yr hawl hon;
  e. ni all y cadeirydd gael y bleidlais fwrw mewn cyfarfod cyffredinol;
- nid oes gofyn i gynigion ysgrifenedig bellach fod yn unfarn, ond gallent gael eu pasio o 50% ar gyfer cynigion arferol a mwyafrif o 75% ar gyfer cynigion arbennig,
- gall gohebiaeth ffurfiol rhwng cwmni a'i aelodau gael ei hanfon drwy gyfathrebu electronig, sydd yn destun amodau;
- nid oes bellach ofyn i gwmni gael ysgrifennydd cwmni (ond rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud trefniadau ar gyfer rhyddhau'r swyddogaethau hynny a oedd yn flaenorol o fewn cylch gwaith y rôl honno); a
- rhaid i ymddiriedolwyr fod yn 16 oed neu fwy.

Corffori Cyrff Anghorfforedig

Dyma'r broses i newid corff anghorfforedig (un a grewyd gan Weithred Ymddiriedolaeth neu gyfwerth, neu gymdeithas aelodau) yn endid sydd â'i bersonoliaeth gyfreithiol ei hun. Mae'n gofyn am greu sefydliad newydd gyda ffurf o ddogfen lywodraethu a ragnodir fel priodol gan statud, sydd wedi'i chofrestru â'r rheoleiddwyr priodol. Er bod y broses hon weithiau yn cael ei disgrifio fel 'trosiad' nid yw hyn yn wir yn gywir, gan ei bod yn fwy fel trosglwyddo o un gweithrediad presennol i un newydd a grewyd.

Dyma'r ffurfiau o gorffori a ddefnyddir gan amgueddfeydd:

- y cwmni cyfyngedig drwy warant – dyma'r ffurf draddodiadol a ddefnyddir i gorffori amgueddfeydd annibynnol, ac mae hyn ar gael drwy gydol y DU; ac
- y sefydliad corfforedig elusennol (CIO) – mae'r ffurf hon wedi bod ar gael yn yr Alban ('SCIO') ers 2011 ac yn Lloegr a Chymru ers 2012; mae deddfwriaeth i gyflwyno CIOs yng Ngogledd Iwerddon wedi cael ei deddfu ond heb ei gweithredu eto.

Mae'r broses o newid yn golygu cyflwyno ceisiadau ar wahân i'r rheoleiddiwr elusennau priodol; os cwmni cyfyngedig drwy warant yw'r bwriad, yna rhaid i'r cwmni gael ei gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau cyn ymgeisio ar gyfer statws elusen. Erbyn hyn, gall y ceisiadau i gyd gael eu gwneud arlein.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi manteision ac anfanteision y ddwy ffurf:

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant

Manteision

- proses gyflym o gorffori (er y gall cofrestru fel elusen gymryd rai misoedd)
- trefniant wedi'i geisio a'i brofi sydd yn gyfarwydd i ariannwyr, banciau a chyflenwyr
- mwy o hyblygrwydd mewn dylunio'r ddogfen lywodraethu
- gallu cynnig debentur neu dâl sicredig dros asedau
- mae penderfyniadau mwyafrifol ar gynigion a basiwyd ar gael
- rhaid i ymddiriedolwyr bob amser ymddwyn yn niddordebau gorau'r elusen
- gallu parhau i fodoli os nad yw'n elusen rhagor (ond rhaid i asedau elusen gael eu trosglwyddo i elusen arall â phwrpasau tebyg)

Anfanteision

- mae angen cydymffurfiaeth â chyfraith cwmni ac elusen, ac mae'n bosib na fydd y rhain yr un peth
- trefn ffeilio a thaliadau cosb beichus am beidio â chydymffurfio
- ffïoedd (cymedrol) i'w talu ar gorffori a ffeilio datganiadau blynyddol
- gofyn statudol i gynnal a chadw amrywiaeth eang o gofnodion cwmni
- mae hawl gan aelodau i ymddwyn yn eu diddordebau gorau eu hunain yn hytrach na rhai yr elusen

Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)

Manteision

- wedi'i ddylunio yn benodol ar gyfer elusennau
- osgoi cofrestru dwbl â rheoleiddwyr elusen a Thŷ'r Cwmnïau
- mae'r dyletswydd o ymddwyn yn niddordebau gorau yr elsuen yn gyfrifoldeb ymddiriedolwyr ac aelodau
- yn rhwym wrth reoliadau cyfrifyddu elusen, felly nid oes angen cyfrifon croniadau os ydy trosiant yn lai na £250k
- trefn lai llym ar gyfer cyfathrebu electronig
- nid yw'r rheoliadau yn gosbedigol
- dewis rhwng model 'cymdeithas' (ar gyfer cyrff aelodaeth) a model 'sefydliad' (ble mae ymddiriedolwyr yn unig yn aelodau)

Anfanteision

- gall CIO ddim ond bodoli wrth gofrestru fel elusen a gall hyn gymryd nifer o fisoedd gan fod y broses yn cynnwys asesu statws elusennol
- gall yr anallu i god tâl gyhoeddus dros asedau olygu fod angen gwarantau personol gan ymddiriedolwyr ar gyfer benthyciadau
- rhaid dod i ben wrth beidio â bod yn elusen

Materion eraill i'w hystyried wrth benderfynu ar ffurf y corffori

Mewn sefyllfaoedd ble nad yw'n bosib i drosglwyddo asedau i gyd yr elusen yn anghyfyngedig i endid newydd (megis pan fod yr elusen yn gyfan yn waddol barhaol) dewis arall yw i ddechrau cwmni cyfyngedig drwy warant i ymddwyn fel unig ymddiriedolwr corfforaethol. Rhaid i gyfarwyddwyr y cwmni ymddiriedolaeth gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol fel cyfarwyddwyr cwmni, a'r cwmni ymddiriedolaeth sydd yn gorfod rhyddhau'r rhwymedigaethau o ymddiriedolwr elusen. Fodd bynnag, pan fod gwaddol barhaol yn trosglwyddo i CIO, mae'r CIO yn awtomatig yn gallu ymddwyn fel unig ymddiriedolwr corfforaethol y gwaddol barhaol hwnnw.

Gallai fod yn ddymunol i gadw'r elusen anghorfforedig. Gall ymddiredolaethau elusennol gael eu defnyddio fel ffordd o ddal adeiladau a chasgliadau ar wahân i'r cwmni gweithredu, a gall sefydliadau ddod yn 'grŵp ffrindiau' sydd yn cefnogi gweithgareddau codi arian yr amgueddfa, neu yn darparu cwndid ar gyfer rheoli cyfranogaeth gwirfoddolwyr. Gan fod statws elusennol yn cynnwys rhwymedigaeth ar sefydliad i gynyddu ei bwrpasau elusennol, nid yw'n bosib i gynnal elusennau fel hyn mewn cyflwr segur – rhaid iddynt fod yn weithredol.

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol gan gyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr elusen i osgoi gwrthdaro buddiannau. Er y gellid disgwyl y bydd gan riant yr un diddordebau gorau â'i is-gyrff, mae'n bosib na fydd hyn yn wir ymhob sefyllfa. Mae'n bwysig felly bod gan unrhyw is-gwmni/elusen gysylltiedig o leiaf rai ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr nad ydynt yn ymddiriedolwyr o'r rhiant.

Gall aelodau o sefydliadau anghorfforedig fod yn gyfarwydd â gweithio dan y mathau o gyfansoddiad sydd wedi eu dylunio i alluogi dull gweithredu 'un person, un bleidlais' i gyfarwyddo'r sefydliad, heb ystyried unrhyw bwyllgor rheoli lle bo disgwyl arnynt i atgyfeirio unrhyw benderfyniad rheoli sylweddol i'r aelodaeth gyffredinol. Mae cwmnïau a CIOs yn gweithredu dan drefn wahanol, a'u cyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyfer cyfarwyddo a chyfeiriad cyffredinol. Mae materion sydd yn cael eu neilltuo yn benodol i aelodau yn perthyn yn bennaf i stiwardiaeth yr endid, yn enwedig y rhwymedigaeth i gyflenwi cyfrifon blynyddol ac i adrodd i'r aelodau, penodi craffu allanol o'r cyfrifon, a phenodi ymddiriedolwyr. Er bod gan aelodau hawl i gael cynnig wedi'i gyflwyno i gyfarfod cyffredinol, mae dyletswydd ar y cyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr i ymddwyn yn niddordebau gorau yr elusen, ac os ydynt i gyd yn teimlo nad yw penderfyniad aelodau yn niddordebau gorau yr elusen, yna mae hawl ganddynt wrthod i'w weithredu.

Gall asedau elusennol fel arfer ddim ond gael eu trosglwyddo i elusen â phwrpas tebyg. Nid yw hyn yn cynnwys trosglwyddo unrhyw ran o'r asedau i unrhyw fenter masnachu cysylltiedig a oedd o bosib yn eiddo yr elusen anghorfforedig, hyd yn oed os ydy'r endid hwnnw wedi'i gofrestru fel Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC). Dylai'r cyfranddaliadau a fuddsoddwyd mewn unrhyw fenter fel hyn gael eu trosglwyddo i'r elusen gorfforedig gyda'r asedau eraill.

Dylai sefydliadau sydd yn gweithredu cynllun pensiwn staff â buddion wedi'u diffinio fod yn ymwybodol y gall unrhyw newid arwain at orfod talu unrhyw gyfraniadau diffyg a aseswyd, yn enwedig mewn achos cynllun pensiwn llywodraeth leol. Gall trosglwyddo diddordeb lesddaliadol mewn eiddo ofyn am ildio les sydd heb ei darfod a gall hyn roi cyfle i'r landlord derfynu'r denantiaeth neu amrywio telerau'r les mewn ffordd sydd yn anffafriol i'r amgueddfa.

Trosglwyddo Asedau o Elusennau Anghorfforedig i rai Corfforedig

Gall 'trosglwyddo asedau' o un perchennog (fel corff anghorfforedig) i un arall (fel cwmni elusennol neu CIO) fod yn fwy beichus na'r broses o anghorffori ei hun, yn enwedig i sefydliad anghorfforedig sydd ag ymrwymiadau contractiol eisoes. Bydd amgueddfeydd sydd yn dal casgliadau yn gofyn am fwy na'r cyfnewid syml o ohebiaeth a fydd yn briodol i elusen fach â balans banc cymhedrol, heb lawer o offer a dim ond cwpwl o gytundebau contractiol bach. Dylai telerau'r trosglwyddo gael eu diffinio o fewn Cytundeb Trosglwyddo sydd yn rhwymo mewn cyfraith rhwng y ddau barti, sydd yn weithredol ar adeg a dyddiad cytun.

Yn ogystal, rhaid mynd i'r afael â'r tasgau canlynol:

- breinio tir ac adeiladau rhydd-ddaliad a ddelir gan ymddiriedolwyr y sefydliad anghorfforedig yn yr endid anghorfforedig a'i gofrestru neu ail-gofrestru yn y Gofrestrfa Tir priodol;
- aseiniad o eiddo lesddaliadol i'r elusen corfforedig, a chael caniatâd y landlord;
- breinio gwaddol parhaol;
- trosglwyddo casgliadau amgueddfa, eiddo personol arall a hawliau eiddo deallusol;
- trosglwyddo'r staff yn unol â'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE);
- agor cyfrifon banc newydd, ail-gofrestru buddsoddiadau a daliadau ariannol eraill, a throsglwyddo cronfeydd;
- 'newyddu' (ailosod y rheiny a oedd yn llofnodi contractau ar ran yr endid anghorfforedig gyda chorff corfforedig newydd) mewn achos Cytundebau â chyflenwyr eisoes o nwyddau a gwasanaethau, ac o unrhyw gytundeb benthyciadau sydd yn perthyn i'r casgliad;
- cofrestru (yn ôl y gofyn) y corff corfforedig â chyrff statudol fel HMRC (treth incwm ac yswiriant cenedlaethol; Gift Aid; TAW ayb) a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cofrestr Rheolwyr Data);
- hysbysu'r Cynllun Achredu Amgueddfeydd;
- cynghori rhanddeiliaid o'r newid statws;
- cynghori cyrff sydd yn dyfarnu grantiau, trosglwyddo cyfrifoldeb i'r elusen gorfforedig, a delio gydag unrhyw faterion sydd yn codi o gontractau grant;
- gofyn wrth roddwyr am newid datganiadau Gift Aid mewn ffafr yr elusen newydd (bydd HMRC yn derbyn bod datganiadau mewn ffafr yr 'hen elusen' yn dal i fod yn ddilys ond gall fod galluogi i'r rhoddwyr i gyd lofnodi datganiadau newydd fod yn ffordd o ofyn am gyfraniadau mwy)
- adolygu manylion ar wefan yr amgueddfa (rhif elusen newydd, ac os ydy'n gwmni, rhif cofrestru'r cwmni);
- deunydd cyhoeddusrwydd newydd yn darparu'r rhifau cofrestru newydd;
- deunyddiau papur newydd (gan gynnwys anfonebau) sydd yn datgan statws yr elusen, ac os ydy'n gwmni, y wybodaeth angenrheidiol am enw, swyddfa gofrestredig, statws a'r lleoliad cofrestru.

Trawsnewid Cwmni Elusennol i CIO

Mae llawer o elusennau llai yn ffeindio rheoleiddio dwbl gan Dŷ'r Cwmnïau a'r rheoleiddiwr elusen priodol yn feichus. Yr unig reswm dros eu hetholiad i ymgorffori fel cwmnïau oedd, oherwydd ar y pryd, fod dim dewis arall. Erbyn hyn mae'n bosib i gwmnïau elusennol newid i fod yn CIOs, heb unrhyw newid yn yr endid cyfreithiol. O ganlyniad i hyn:

- bydd enw a'r rhif cofrestru elusen presennol yn cael eu cadw;
- nid yw unrhyw drosglwyddo o asedau nag atebolrwyddau yn angenrheidiol, na'r angen ar gyfer cyfrifon banc newydd;
- dylai pob etifeddiaeth i'r cwmni elusennol fod yn daladwy yn awtomatig i'r CIO;
- ni fydd unrhyw angen ar gyfer caniatadau data newydd;
- ni ddylai'r newid ymddwyn fel taliad sbardun o gyfraniadau diffyg i gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio aml-gyflogwr (er y dylech chwilio am gyngor annibynnol ar hyn); a
- gan nad oes unrhyw angen i drosglwyddo cyflogeion, fel arfer bydd goblygiadau Rheoliadau TUPE cyfyngedig (ond eto, dylech chwilio am gyngor annibynnol er mwyn cadarnhau hyn).

Rhaid cael caniatâd y rheoleiddiwr ar gyfer y newid, gan gynnwys copïau o'r Rheoliadau Arbennig sydd yn cymeradwyo'r newid ac yn mabwysiadu'r cyfansoddiad ar gyfer y CIO newydd (rhaid cyflenwi hyn hefyd).

Rhagor o Gyngor

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o'r gwefannau canlynol:

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru
https://www.gov.uk/government/organisations/charity-commission

Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban
https://www.oscr.org.uk

Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon
https://www.charitycommissionni.org.uk

Am yr awdur::

Mae Adrian Babbidge wedi, mewn un rôl neu'r llall, wedi bod yn cynghori amgueddfeydd annibynnol ar faterion llywodraethu am fwy na 35 blynedd. Erbyn hyn mae e wedi hanner ymdddeol, ond mae'n parhau i ymchwilio ac ysgrifennu ar faterion sydd yn perthyn i'r sector amgueddfeydd a threftadaeth.

Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM)
3 Chestnut Grove, Ludlow
Shropshire SY8 1TJ
www.aim-museums.co.uk

Hawlfraint © 2018 Cymdeithas yr Amgueddfeydd Abnibynnol a Tamali Newbury

Bwriad y cyhoeddiad hwn yw darparu canllaw cyffredinol ar y pynciau a drafodir yn unig. Nid yw'r cyhoeddiad hwn wedi'i fwriadu fel cyngor cyfreithiol, ac ni ddylid ei ddefnyddio yn lle ymgynghoriad â chynghorydd cyfreithiol cymwysedig, sydd yn gallu ystyried eich amgylchiadau penodol.